

2020 Rhif (Cy.)

2020 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

**Gorchymyn Cefnffordd yr A487
(Aberystwyth, Ceredigion)
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)
2020**

**The A487 Trunk Road
(Aberystwyth, Ceredigion)
(Temporary Prohibition of
Vehicles) Order 2020**

Gwnaed 18 Awst 2020
Yn dod i rym 24 Awst 2020

Made 18 August 2020
Coming into force 24 August 2020

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A487, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A487 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of the likelihood of danger to the public.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Aberystwyth, Ceredigion) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 24 Awst 2020.

1. The title of this Order is the A487 Trunk Road (Aberystwyth, Ceredigion) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2020 and it comes into force on 24 August 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor.

2. In this Order—

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A487 Fishguard to Bangor trunk road.

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd o'r enw Stryd y Bont a'r Stryd Fawr, Aberystwyth, Ceredigion sy'n ymestyn o bwynt mwyaf gogleddol ei chyffordd â Than y Cae hyd at bwynt 105 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd y Môr.

Cymhwys

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

18 Awst 2020



Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Prohibition

3. No person may drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road known as Bridge Street and Great Darkgate Street, Aberystwyth, Ceredigion that extends from the northernmost point of its junction with South Road to a point 105 metres north-east of the centre of its junction with Terrace Road.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

18 August 2020



Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487
(ABERYSTWYTH, CEREDIGION)
(GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn am fod gwaith yn cael ei wneud ar gefnffordd yr A487 yn Aberystwyth, Ceredigion i gyflwyno mesurau cadw pellter cymdeithasol oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd o ganlyniad i'r pandemig Covid-19.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys, rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A487 o'r enw Stryd y Bont a'r Stryd Fawr, Aberystwyth, sy'n ymestyn o bwynt mwyaf gogleddol ei chyffordd â Than y Cae hyd at bwynt 105 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd y Môr.

Y llwybr arall yw mynd ar hyd Dan Dre, Ffordd Alexandra, Ffordd y Môr a Rhodfa'r Gogledd.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn dod i rym am 00:01 o'r gloch ar 24 Awst 2020 ac yn parhau mewn grym am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A487 TRUNK ROAD (ABERYSTWYTH,
CEREDIGION) (TEMPORARY PROHIBITION
OF VEHICLES) ORDER 2020**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 on the A487 trunk road at Aberystwyth, Ceredigion, which is necessary to introduce social distancing measures because of the likelihood of danger to the public due to the Covid-19 pandemic.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services, from proceeding on the length of the A487 trunk road known as Bridge Street and Great Darkgate Street, Aberystwyth that extends from the northernmost point of its junction with South Road to a point 105 metres north-east of the centre of its junction with Terrace Road.

The alternative route is via Mill Street, Alexandra Road, Terrace Road and North Parade.

The temporary prohibition is expected to come into force at 00:01 hours on 24 August 2020 and to remain in force for up to a maximum period of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



J SADDLER
Transport
Welsh Government